# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llandderfel
## Nos Fawrth, Mai 24ain 2022 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Sarnau.

Presennol: Rita Jones (cadeiryddes), Alwyn Jones, Iolo V. Evans, Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Gwynedd Jones, Gwenda Evans, Gwenda Morris, Gary Thomas a'r clerc Ymddiheuriadau: Eifion Davies, Dewi Pritchard a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Croesawyd Gwenda Morris yn nôl i'r cyngor ar ôl cyfnod o salwch.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Mawrth 2il 2022) **CYMERADWYWYD.**

ii) Datgan Buddiant – **DIM**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Ymateb i'r materion o'r cyfarfod diwethaf **– NODWYD FOD Y MATERION WEDI CAEL SYLW.**
b) Mynwentydd – **GIÂT MYNWENT FRONGOCH NOL YN EI LLE AC ROEDD ADDEWID Y BYDDAI'R GWAITH AR GIÂT A RAILINGS MYNWENT LLANDDERFEL YN CAEL EI GWBLHAU YN YR WYTHNOSAU NESAF. GWNAED TREFNIADAU I ARCHWILIO'R MYNWENTYDD. CYTUNWYD I OSOD HYSBYSEB YM MHETHE PENLLYN I HYSBYSU'R CYHOEDD O'R GWAITH YMA**.

iv) Gohebiaeth
a) Cyngor Gwynedd.
i) Rhaglen waith yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol - Mis Ebrill & Mai.
ii) Ymgynghoriad Cyhoeddus – Holiadur Anghenion Tai.

b) Amrywiol.
i) Cylch yr Iaith – gwarchod enwau lleoedd Cymraeg **– CEFNOGWYD.**
ii) Newyddion Coedwig Genedlaethol i Gymru **– NODWYD GWRTHWYNEBIAD Y CYNGOR I'R BWRIAD O BLANNU COED AR DIR AMAETHYDDOL DA**.
iii) Cyngor Cymuned Llanuwchllyn – Cynllun Ardal Llanuwchllyn.
iv) Cais am gefnogaeth i gael diffib i bentref Llanfor **– CEFNOGWYD.**
v) Benthyg Cymru – cynllun newydd.

v) Ceisiadau Cynllunio
C22/0177/04/LL - Addasu, ymestyn a chysylltu dau adeilad allanol presennol yn 2 uned wyliau cynhaliol. Bryn Banon, Llanfor.
C22/0249/04/LL – Adeiladu sied amaethyddol. Tyn Y Ddol, Llandderfel.
C21/0314/04/CR – Codi porth ar flaen yr eiddo a lolfa haul. Tyn Y Ddol, Llandderfel.
**NID OEDD Y CYNGHORWYR YN YMWYBODOL O UNRHYW WRTHWYNEBIAD I'R CEISIADAU.**

vi) Materion Ariannol
a) Praesept - £4,500 a Chronfa Prosiectau Cymunedol Bychain Parc Cenedlaethol Eryri - £500 (grant lloches bws Frongoch) **- CYDNABUWYD.**
b) Archwiliad Blynyddol & canllawiau statudol cyhoeddi cyfrifon ariannol 2022-23 - **ROEDD CYNGOR GWYNEDD WEDI ARCHWILIO'R CYFRIFON A CHAFWYD CADARNHAD I SICRWYDD YN NHREFNIADAU LLYWODRAETHU A DATGANIADAU CYFRIFYDDU'R CYNGOR.**
c) Taliadau - **CYMERADWYWYD.**
i) £5634.00 i Macemain am loches bws Frongoch ar ddiwedd mis Mawrth.
ii) AJG Community Schemes (yswiriant) ac ad-daliad i'r clerc, cost bin gwastraff gardd i fynwent Llandderfel.
ch) Ceisiadau ariannol - Eisteddfod yr Urdd Cylch Penllyn, Kids Cancer Charity, Teenager Cancer Trust Cymru **– NODWYD.**

vii) Materion lleol.
a) **CYTUNWYD I ANFON Y CWYNION I'R ADRANNAU PERTHNASOL.**